OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1376 (Cy.121)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Ebrill 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Ebrill 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *21 Mai 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diodydd)(**2**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpanau Bach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 21 Mai 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau i Reoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn yr enw ac yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso) yn y testun Cymraeg yn lle "(Jeli Cwpan Fach)" rhodder "(Jeli Cwpanau Bach)".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn y testun Saesneg–

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/1971.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002.
(**4**) O.S. 2009/3379 (Cy. 301).

(a) ar ddiwedd paragraff (3)(a) mewnosoder "or";

(b) ym mharagraff (3)(b) dileer "; or" ac yn ei le rhodder ","; ac

(c) ym mharagraff (3) dileer is-baragraff (c).

(4) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn y testun Cymraeg—

(a) ar ddiwedd paragraff 3(a) mewnosoder "neu";

(b) ym mharagraff (3)(b) dileer "; neu" ac yn ei le rhodder ","; ac

(c) ym mharagraff (3) dileer is-baragraff (c).

(5) Ym mharagraff (5) o reoliad 3 (gwaharddiadau) yn y testun Cymraeg ar ôl y gair "gyfnod" mewnosoder y gair "nad".

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Ebrill 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau Bwyd (Jeli Cwpan Fach) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2009.